# Morio canu 1

## Plant bach a'u hoedolion

**Sesiwn o ganu hwyliog i blant cyn-ysgol, Rhieni, gwarchodwyr, nain, taid ayyb**



Fuoch chi 'rioed yn morio?
Wel, do, mewn padell ffrio !
Chwythodd y gwynt fi i'r Eil o Man
A dyna lle buom yn crio…





Mi welais Jac y Do
Yn eistedd ar ben to
Het wen ar ei ben a dwy goes bren
Ho HO Ho HO ho Ho !!

Hen fwnci bach o Lŷn
A aeth i dynnu'i lun
Edrychodd yn syn, a
chwerthin fel hyn
Hi Hi Hi Hi Hi Hi !!



Oh !
The grand old Duke of York
He had ten thousand men
He marched them up to the top of the hill
And he marched them down again



Heno, heno, hen blant bach (x2)
Dime, dime dime, hen blant bach (x2)

Cysgu, cysgu hen blant bach

Fory, fory, hen blant bach

DEFFRO ! DEFFRO ! hen blant bach!

# Shhhh…



Llwynog coch sy'n cysgu (x3)
Ar y ddôl

Pwy ddaw yna i'w ddeffro? (x3)
Ar y ddôl ?

Pwy ddaw yna i'w bigo ? (x3)
Ar y ddôl?

Llwynog coch sy'n DEFFRO !



Adeiladu tŷ bach 1,2,3
Tô ar ei ben o a dyna ni!
Sbecian trwy y ffenest - be welwch chi?
Llygoden fach yn cysgu (sh, dach chi)
Llygoden fach yn cysgu yn y tŷ……
Llygoden fach yn DEFFRO !
I ffwrdd â hi !



Tebot bychan ydw i, crwn a theg,
Dyma fy nghlust i a dyma  fy ngheg.
Pan dw i'n dechrau stemio dros y lle
-Rhowch droi i mi a thywallt tê !



I'm a little teapot short and stout,
Here's my handle, here's my spout
When I get all steamed up, hear me shout :
Tip me up and pour me out !

**(Amser paned i Mam !) Amser chwarae i'r plant.**



**Amser symud !!**

**Pen, ysgwyddau, coesau, traed, coesau traed (x2),**
**Llygaid, clustiau, trwyn a cheg**
**Pen, ysgwyddau, coesau, traed, (coesau, traed)**
**Yn ôl ,ymlaen,**
**I fyny, I lawr**
**Troi a throi**

**Troi ein dwylo**
**Troi ein breichiau**
**Cicio'n coesau**
**- troi a throi a throi fel hyn !**



Clap, clap, un dau tri (x3)
Troi a throi ein dwylo

Tap, tap un dau tri (x3)
Troi a throi ein dwylo
Clic, clic, un dau tri (x3)
Troi a throi ein dwylo

Stamp, stamp, un, dau tri (x3)
Troi a throi ein dwylo

Eich dewis CHI

**Dewis Jina:**

Mi welais long yn hwylio
Yn hwylio ar y lli
Ac O! roedd hon yn llawn ymron
O bethau tlws i mi
Hwyaden oedd y Capten
A'i enw Twm Sion Jac
A phan symudai'r llong trwy'r dŵr
Mi ganai 'Cwac, cwac, cwac' !

Hwyl fawr ffrindiau
Hwyl fawr ffrindiau
Hwyl fawr ffrindiau
Mae'n amser dweud
'Hwyl fawr'.

Tan tro nesa, (x3)
Mae'n amser dweud

'Hwyl Fawr'



# Nodiadau :